

**CYNGOR BRO MORGANNWG
(GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A
LLWYTHO A MANNAU PARCIO)
(GORFODI SIFIL) (DIWYGIAD) (RHIF 5) 2021**

1. Ar 25 Mai 2021 gwnaeth Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, greu Gorchymyn i osod y cyfyngiad parcio a nodir yn yr atodlen isod.
2. Bydd y Gorchymyn yn dod i rym ar 31 Mai 2021 neu ar y dyddiadau y caiff yr arwyddion a'r marciau ffordd eu tynnu neu eu gosod, p'un bynnag sydd hwyrach, ac fe'i gelwir yn "Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Pharcio) (Gorfodi Sifil) (Diwygiad) (Rhif 5) 2021"
3. Gellir archwilio copi o'r Gorchymyn a'r cynlluniau'n dangos yr ardaloedd yr effeithir arnynt ar wefan y Cyngor yn www.bromorgannwg.gov.uk
4. Os dymunwch herio dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaethau ynddo ar y sail nad yw'n unol â'r pwerau a ddyfarnwyd gan y Ddeddf uchod neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofnyon y Ddeddf, neu unrhyw offeryn a wnaed dan y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn, gallwch, o fewn chwe wythnos i 31 Mai 2021, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwn.

Caiff y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig canlynol ei ddiwygio fel a ganlyn:
Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil) 2013

ATODLEN

Cynnig i Ddiddymu'r Gwaharddiad Aros, dydd Llun i ddydd Sadwrn, 8am tan 6.30pm, 2 awr, dim dychwelyd o fewn 2 awr

Plymouth Road, Penarth – AL65

Ar ochr y gorllewin o bwynt sy'n 34 metr i'r de o'r ffin rhwng eiddo rhifau 2 a 4 i gyfeiriad y de am 4 metr.

Dyddiad: 27 Mai 2021.

Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai

Cyngor Bro Morgannwg, Depo'r Alpau, Gwenfô CF5 6AA